LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Polisi Mynediad at Eitemau Casgliadau

Rhan o'r Fframwaith Rheoli Casgliadau

Strwythur

1. Cyd-destun Polisi
2. Cyd-destun Strategol
3. Egwyddorion Cyffredinol
4. Mynediad at Eitemau Gwreiddiol
    1. Egwyddorion mynediad ar y safle
    2. Mynediad yn yr ardaloedd storio
    3. Defnydd o gopïau dirprwy (ffisegol a digidol)
    4. Digido Casgliadau Ffisegol
    5. Casgliadau digidol ar y safle
    6. Mynediad at Eitemau Gwreiddiol - Proses Ystyriaethau Ychwanegol
    7. Copïo hunanwasanaeth a ffotograffiaeth yn yr Ystafell Ddarllen
    8. Arddangosfeydd a Benthyciadau
    9. Dysgu ac Ymgysylltu
5. Mynediad o Bell at Gasgliadau
    1. Egwyddorion Cyffredinol
    2. Darparu copïau o eitemau sydd wedi eu digido
    3. Rhannu Casgliadau

DRAFT

1. Cyd-destun Polisi

Mae'r Fframwaith Rheoli Casgliadau yn gosod cyd-destun ar gyfer y polisïau sy'n cynorthwyo'r Llyfrgell i reoli'r casgliadau yn effeithiol ac effeithlon er budd pobl Cymru a'r Byd. Mae'r polisi hwn yn rhan o'r fframwaith a dylid ei ddehongli yn y cyd-destun hwnnw.

2. Cyd-destun Strategol

Commented [ME1]: Oes geiriad cyffredinol gennym ar gyfer 2.1-2.3 gallwn ddefnyddio ym mhob polisi?

Commented [OR2R1]: Wedi diweddaru hwn hefo manylion y Strategaeth Newydd 2030 a'r Strategaeth Gasgliadau

2.1 Mae'r casgliadau wrth galon gwaith a gweithgaredd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Siarter Frenhinol yn 1907 ac mae'r Siartr honno'n datgan mai prif bwrpas y Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw:

> *"casglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth gofnodedig o bob math ac ar bob ffurf, yn arbennig gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu."*

2.2 Mae'r casgliadau'n bodoli er budd pobl Cymru a'r byd, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Mae cynllun strategol y Llyfrgell ar gyfer 2026-2030 - Cysylltu Cymru a'r Byd yn atgyfnerthu'r egwyddor hwn wrth nodi gweledigaeth y Llyfrgell sef:

> *"Ein pwrpas yw cydweithio â phobl Cymru i gadw, tyfu a rhannu cof a diwylliant y genedl. Gan ddefnyddio ein casgliadau a'n harbenigedd byddwn yn cysylltu â chymunedau, yn cynyddu gwybodaeth ac yn datblygu sgiliau a dysg."*

Mae'r Cynllun Strategol hefyd yn cynnwys pedwar amcan strategol a llesiant:

- Cadw a datblygu cof y genedl
- Rhannu gwybodaeth am Gymru a'i phobl
- Cysylltu cymunedau
- Addysg, sgiliau ac ymchwil

a. Mae darparu mynediad at y casgliadau nid yn unig yn un o brif bwrpasau'r Llyfrgell o dan y Siarter ond hefyd yn fodd i'r Llyfrgell wireddu ei gweledigaeth a'i hamcanion strategol a llesiant.

b. Mae Strategaeth Casgliadau 2030 y Llyfrgell hefyd yn darparu arweiniad i waith gyda casgliadau ac yn canolbwyntio ar dair amcan:

- Casgliadau cysylltiedig
- Casgliadau cynhwysol
- Casgliadau cynaliadwy

2.5 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion o ran mynediad i eitemau'r casgliadau sydd yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC). Mae gan LlGC ystod eang o gasgliadau mewn amrywiol fformatau, sy'n cynnwys:

- Deunydd printiedig (llyfrau, cylchgronau, papurau newydd)
- E-adnoddau
- Gwefannau
- Llawysgrifau
- Deunydd archifol (papur a digidol)
- Peintiadau a Printiau topograffyddol

DRAFT

- Portreadau
- Ffotograffau
- Mapiau a siartiau
- Ffilm
- Fideo
- Recordiadau sain

3. Egwyddorion Cyffredinol

3.1 Dylai defnyddwyr ddisgwyl mynediad rhad ac am ddim a heb unrhyw gyfyngiadau i gasgliadau'r Llyfrgell yn y safle ac ar-lein. Dynodir mannau penodol ar y safle ar gyfer darparu mynediad i fathau arbennig o eitemau ffisegol.

3.2 Mae profiad y defnyddiwr yn ystyriaeth greiddiol yn y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau sy'n darparu mynediad i'r casgliadau. Mae ein Siarter Gofal Cwsmer yn gosod allan yr hyn sy'n ddisgwyliedig o safbwynt y Llyfrgell a'r defnyddiwr. Gw. https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/ymweld_a_ni/darllen_yn_llgc/myncas_siartergofalcwsmer_20171122C.pdf

Commented [ME3]: y siarter yn cael ei ddiweddaru

3.3 Wrth benderfynu ar fynediad bydd y Llyfrgell yn ystyried effaith ei phenderfyniadau ar y gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau dyfodol yn ogystal â'r presennol yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac ar sail asesiadau risg cadwraethol.

4. Mynediad at Eitemau Gwreiddiol

4.1 Egwyddorion Mynediad ar y safle

4.1.1 Gwneir pob ymdrech i ddarparu mynediad uniongyrchol at gasgliadau gwreiddiol, ond lle mae dirprwy-gopïau addas (e.e. fersiynau digidol, microffurfiau a ffacsimilïau) ar gael bydd defnyddwyr yn cael eu cymell i ddefnyddio'r rhain yn lle'r eitemau gwreiddiol. Prif gyfrwng y mynediad yw gwasanaeth yr Ystafell Darllen ac mae copi o Delerau ac Amodau yr Ystafell Darllen ar gael yma:

https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/ymweld_a_ni/darllen_yn_llgc/dar_pol_amodau_defnydd_yst_darll_cy.pdf

Commented [ME4]: y polisi yma o dan adolygiad hefyd

4.1.2 Mae'n bosibl y bydd ceisiadau i weld rhai eitemau gwreiddiol yn gofyn ystyriaeth ychwanegol gan staff y Llyfrgell, gweler adran 4.6 isod.

4.1.3 Er bod yr gofodau darllen yn cael eu goruchwylio, bydd defnyddwyr yr eitemau hynny sydd angen ystyriaeth ychwanegol (gweler adran 4.6 isod) yn cael eu goruchwylio'n fanylach.

4.1.4 Pan nad yw defnyddwyr yn gallu cael mynediad uniongyrchol at eitemau gwreiddiol o'r casgliadau, bydd LlGC yn gwneud ei gorau glas i sicrhau mynediad trwy ffyrdd eraill os yw'n briodol, e.e. gosod yr eitem mewn cas gwydr, neu trwy gyfryngwr (megis staff cadwraeth yn troi'r tudalennau).

4.1.5 Mae'r catalog yn nodi eitemau sydd â chyfyngiadau arnynt oherwydd gwahanol resymau ac mae'r eitemau sy'n cael eu cynnwys yn categorïau yma yn cael eu hadolygu yn gyson. Mae'r eitemau a allai gael eu heffeithio yn seiliedig ar y meini prawf yn 4.6 ac ar asesiadau cadwraeth parhaus.

4.1.6 Pan fo staff neu ddefnyddwyr yn sylwi ar gyflwr corfforol gwael neu ddifrod i eitem y gofynnwyd amdano, dylid rhoi gwybod am hyn fel bod staff y Llyfrgell yn gallu cymryd camau adfer. Gall hyn olygu bod yr eitem yn dod o dan yr ystyriaethau a restrir yn 4.6.

DRAFT

4.2 Mynediad yn yr ardaloedd storio

Mewn achosion eithriadol iawn mae'n bosibl y bydd y Llyfrgell yn darparu mynediad trwy ganiatáu mynediad i'r ardaloedd storio. Caiff mynediad o'r fath ei reoli'n ofalus trwy'r Polisi Mynediad i Ardaloedd Storio Casgliadau.

4.3 Defnydd o gopïau dirprwy (ffisegol a digidol)

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn dal ei chasgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y genedl ac mae'n gyfrifol am ddiogelu'r eitemau yn ei gofal ynghyd â darparu, hyrwyddo ac ehangu mynediad at y deunydd hwn, boed yn gyffyrddadwy ac analog neu'n ddigidol. Mae'r Llyfrgell o'r farn bod dirprwy-gopïau da yn ffordd werthfawr o gynyddu mynediad at gasgliadau, p'un ai ar gyfer defnyddwyr o bell ar-lein neu ar gyfer diogelu eitemau neu ddeunydd bregus y gofynnir amdanynt yn aml gan ymchwilwyr. Fodd bynnag, ni all dirprwy gopïau, ym mha ffurf bynnag, gymryd lle'r gwreiddiol bob tro. Os ydynt ar gael, mae dirprwy-gopïau effeithiol yn lleihau'r risgiau posibl i eitemau corfforol cyffyrddadwy, yn enwedig yr eitemau mwyaf bregus a diffygiol neu'r rheiny a ddefnyddir yn gyson, yn unol â datganiad UNESCO bod *"digido yn fodd i ddiogelu dogfennau rhag dirywio gan fod llai o drin a thrafod arnynt"*. Am y rhesymau hyn i gyd, mae defnyddwyr ar safle LlGC sy'n archebu eitemau a ddynodir yn hynod werthfawr, bregus neu mewn perygl neilltuol o ddirywio trwy newidiadau atmosfferig wrth gael eu symud o'r storfa, yn cael eu cymell i roi manylion ychwanegol i staff i'w helpu ystyried y cais yn unol â'r broses a ddisgrifir yn adran 4.6 isod. Yn ogystal â galluogi'r Llyfrgell i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'r cais, mae'r wybodaeth hon yn help i ddeall gofynion y defnyddiwr yn well ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

4.4 Digido Casgliadau Ffisegol

Mae profiad y Llyfrgell wedi dangos y gwerth sylweddol sydd i ddefnyddio technegau cadwraeth traddodiadol ochr yn ochr ag arbenigedd digido i greu adnoddau digidol i hyrwyddo ymchwil newydd ac i gefnogi cyflawni amcanion dysgu, gan gynnwys anghenion busnes (megis tystiolaeth ffiniau), ymchwil gymunedol a chreu ffacsimilïau o lyfrau llawysgrifau canoloesol ar gyfer gweithgareddau ymestyn allan a dysgu. Y cam cyntaf yw atgyweirio a pharatoi llawysgrifau bregus ar gyfer eu digido, yr ail yw creu dirprwy-gopïau ohonynt o ansawdd uchel, tra bod y broses gyfan yn cael ei goruchwylio gan arbenigedd cadwraethol a bod y deunydd gwreiddiol yn cael ei drin yn grefftus i sicrhau ei fod yn goroesi cyhyd ag y bo modd.

4.5 Casgliadau Digidol ar y Safle

Mewn nifer o achosion bydd cyfyngiadau cyfreithiol a/neu gytundebol yn golygu y gellir rhoi mynediad i gasgliadau sy'n ddigidol ar safleoedd y Llyfrgell ond ddim yn ehangach ar y We. Bydd mynediad yn cael ei ddarparu ar safleoedd y Llyfrgell mewn dull sy'n boddhau'r cyfyngiadau hynny, a gall rheini amrywio yn ôl y casgliad dan sylw.

4.6 Proses Ystyriaethau Ychwanegol

Tra bod y rhan helaeth o eitemau'r casgliadau ar gael am ddim i'w hastudio yn yr ystafell darllen, neu ar gyfer archebion reprograffig heb gyfyngiadau, weithiau bydd rhaid i staff ystyried ymhellach cyn caniatáu mynediad i eitemau penodol o'r casgliadau. Gall y rhesymau am hyn gynnwys y rhai canlynol heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Yr eitem yn hynod werthfawr (hen, unigryw, prin) ac o arwyddocâd diwylliannol mawr, a/neu fod y cyflwr ffisegol yn wael a bod y risg o ddifrod wrth drin a thrafod neu wrth ddod i gysylltiad â newidiadau amgylcheddol yn sylweddol.

DRAFT

- Gweithredu cyfyngiadau penodol ar fynediad, megis deddfwriaeth Diogelu Data neu eithriadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Adnau Cyfreithiol.
- Yr eitem yn anarferol o anodd ei chyrchu: e.e. oherwydd adleoliad dros-dro neu rwystrau i fannau storio, neu ffactorau eraill gan gynnwys benthyciad allanol, arddangosfa neu fod yr eitem yn y broses o'i gatalogio

4.6.1 Ceisiadau am eitemau gwreiddiol sydd angen ystyriaeth ychwanegol

Dylai defnyddwyr lenwi ffurflen *'Mynediad i Eitemau o'r Casgliadau: ystyriaethau pellach'* fel rhan o'u cais am eitemau sydd angen ystyriaeth ychwanegol. Bydd y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch y cais penodol a bydd yn helpu'r Llyfrgell i ddeall anghenion ei defnyddwyr, llywio creu fformatau dirprwyol y dyfodol a rhaglenni triniaethau cadwraeth. Yng nghyswllt archebion reprograffig, dylai aelod o'r tîm ymholiadau lenwi'r ffurflen hon ar ran defnyddwyr. Y rheswm mwyaf cyffredin ar gyfer cais yw bod y dirprwy-gopi ddim ar gael neu'n anaddas ar gyfer anghenion y defnyddiwr: Tra bod gofal mawr yn cael ei gymryd i greu dirprwy-gopïau o ansawdd uchel at ddibenion ymchwil a reprograffeg, nid oes modd bob amser i ail-greu natur swyddogaethol neu brofiad corfforol yr eitem wreiddiol yn ei chyfanrwydd. Felly, mae'n bosibl y byddai defnyddwyr angen mynediad i eitemau gwreiddiol ar gyfer eu hymchwil. Pan fo cais yn ymwneud ag eitem fregus neu risg uchel lle nad oes dirprwy-gopi ar gael, bydd y Llyfrgell yn ystyried creu dirprwy-gopi.

4.6.2 Categorïau asesu

Bydd eitemau sy'n gofyn am ystyriaeth ychwanegol yn disgyn i mewn i o leiaf un o'r categorïau isod:

Categori Asesu	Enghreifftiau	Camau Angenrheidiol
Categori A	Eitemau o werth arbennig (hen, unigryw, prin) ac o arwyddocâd diwylliannol pwysig a/neu fod y cyflwr corfforol yn wael a bod y perygl o ddifrod trwy drin a thrafod yn sylweddol	Cwblhau ffurflen *'Mynediad i Eitemau o'r Casgliadau: ystyriaethau pellach'*, yn cynnwys llofnod aelod staff awdurdodedig. Gall y dosbarthu gymryd mwy na'r amser arferol o ystyried gwerthuso eitemau cyfyngedig a/neu ymaddasu i'r amgylchedd. Efallai y byddai angen caniatáu amser (24 awr neu fwy) rhwng y cais a'r trosglwyddo i'r ystafell ddarllen.
Categori B	Pob eitem arall lle mae dirprwy-gopïau da ar gael.	Dylai staff argymell y defnydd o ddirprwy gopïau yn y lle cyntaf. Dim angen llofnod i ganiatáu mynediad i'r gwreiddiol.
Categori C	Cyfyngiadau am resymau eraill, megis y rhai a restrir yn 4.6	Cysylltu â'r aelod staff curadurol perthnasol sy'n gyfrifol am y casgliad dan sylw.

4.7 Copïo hunanwasanaeth a ffotograffiaeth yn yr Ystafell Ddarllen

4.7.1 Copïo hunanwasanaeth

Mae mynediad i beiriannau copïo hunanwasanaeth yn yr Ystafell Ddarllen lle gall darllenwyr wneud copïau o gasgliadau print ar ôl 1910. Ar gyfer deunydd print cyn 1910 rhaid defnyddio'r gwasanaeth ffotocopïo.

DRAFT

4.7.2 Ffotograffiaeth yn yr Ystafell Ddarllen

Caniateir i ddarllenwyr ddefnyddio'u camerâu eu hunain i wneud copïau am ddim yn yr ystafell ddarllen o dan rhai amgylchiadau. Rhaid i'r defnydd gyd-fynd a'r rheolau sydd wedi'u gosod allan yn y polisi *'Defnydd o Gamerâu i greu Copïau yn yr Ystafelloedd Darllen'*. Dylai staff yr ystafell darllen sicrhau fod eitemau'n cael eu trin a'u trafod yn gywir a bod cyfarpar cynnal a standiau copïau addas yn cael eu defnyddio. Caniateir i ddarllenwyr ddefnyddio golau sydd ar gael yn unig ar gyfer ffotograffiaeth. Ni chaniateir golau ychwanegol gan gynnwys fflach olau. Os yw darllenydd yn dymuno tynnu llun o eitem mewn categori dan gyfyngiad (gw. adran 4.6), rhaid nodi hyn ar y ffurflen *'Mynediad i Eitemau o'r Casgliadau: gwybodaeth bellach'* cyn llofnodi a throsglwyddo.

4.8 Arddangosfeydd a Benthyciadau

4.8.1 Arddangosfeydd

Yn ogystal a darparu mynediad trwy'r ystafell darllen ac ar-lein mae'r Llyfrgell yn defnyddio arddangosfeydd ar ei safleoedd a thu hwnt fel modd i ehangu mynediad i'r casgliadau.

Canllawiau ynglŷn â thynnu lluniau (ffotograffau) yn Arddangosfeydd LLGC:

- Caniateir tynnu lluniau yn yr orielau at ddefnydd personol, anfasnachol yn unig, Fodd bynnag, y mae'r Llyfrgell yn mynnu'r hawl, ar adegau, i wahardd hynny am resymau yn ymwneud â hawliau, diogelwch a chwaeth.
- Bydd arwyddion clir, bob amser, i gyd-fynd â phob arddangosfa i nodi a oes hawl i dynnu lluniau ai peidio.
- Caniateir defnyddio camerâu a ffônau symudol.
- Ni chaniateir defnyddio fflach.
- Ni chaniateir defnyddio trybedd.
- Cyfrifoldeb yr ymwelydd yw sicrhau nad yw'n torri unrhyw ddeddfau hawlfraint.

4.8.2 Benthyciadau

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn benthyca eitemau o'i chasgliadau i arddangosfeydd dros dro yn y DU a thramor, ond yn bennaf i orielau ac amgueddfeydd yng Nghymru.

Fel arfer dylid gwneud ceisiadau am fenthyciadau o leiaf 6 mis cyn i'r arddangosfa agor. Rhoddir ystyriaeth i bob cais am fenthyciad cyn belled ag y bo'r lleoliad sy'n benthyca yn gallu cwrdd â'r gofynion a amlinellir yn y Telerau Cytundeb Benthyciad. Mae'r Llyfrgell yn gwneud pob ymdrech i fenthyca, ac eithrio lle mae argaeledd, cyflwr neu ddiogelwch y gwrthrych yn ein rhwystro rhag gwneud hynny. Gw. https://www.llyfrgell.cymru/ymweld-a-ni/pethau-iw-gwneud/arddangosfeydd/llogi/benthyg-eitemau

4.9 Dysgu ac Ymgysylltu

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod rôl greiddiol mae mynediad i'r casgliadau yn ei chwarae yn y gwaith o hyrwyddo dysgu ac ymgysylltu. Mae'r Llyfrgell yn ymrwymo i sicrhau'r mynediad ehangaf i gasgliadau er mwyn hwyluso'r gwaith hwn. Gall mynediad olygu creu ffacsimilïau ar gyfer pwrpas dysgu ac ymgysylltu, a gweld eitemau gwreiddiol o dan arolygaeth ble mae hynny'n addas.

5. Mynediad o bell at Gasgliadau

5.1 Diffiniad o fynediad

Mewn cyd-destun digidol gellir diffinio mynediad ar ddwy lefel:

DRAFT

Gweld – Mynediad sy'n galluogi unigolyn i ddehongli cynnwys yr eitem, ond heb ddefnydd ohono y tu hwnt i'r rhyngwyneb a ddefnyddir i'w gyflwyno.

Ail-ddefnydd – Y gallu i ddefnyddio'r wybodaeth at bwrpas gwahanol i'r pwrpas gwreiddiol pan y bu iddo gael ei cynhyrchu, ei gadw, ei gasglu neu ei rannu'n wreiddiol.

5.2 Egwyddorion Cyffredinol

5.2.1 Mae'r Llyfrgell yn ymrwymo i ddarparu'r mynediad ehangaf posib ac mae mynediad digidol yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyflawni'r nod hwn.

5.2.2 Rhoir mynediad agored a di-rwystr, yn rhad ac am ddim, i'r holl atgynhyrchiadau digidol a grëir trwy raglen neu brosiectau digido y Llyfrgell, oni bai bod rheswm cyfreithiol neu achos busnes dros beidio â gwneud hynny.

5.2.3 Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bodolaeth hawliau, yn cynnwys rhai perthnasol i eiddo deallusol a phreifatrwydd, sy'n bodoli mewn casgliadau sydd ar gael o bell ac yn ymdrin â hwy mewn dull priodol. Rheolir hawliau eiddo deallusol yn unol a'r Polisi Eiddo Deallusol. Rhoir gwybod i ddefnyddwyr hefyd beth yw statws hawlfraint y casgliadau sydd ar gael o bell.

5.2.4 Mae'r Llyfrgell yn rhoi ystyriaeth briodol i lais y defnyddiwr a'r defnydd a wneir ac/neu a fwriedir wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa gasgliadau ddylai fod ar gael yn ddigidol a'r dull a chyfrwng ar gyfer rhoi mynediad iddynt.

5.2.5 Wrth dylunio, datblygu a monitro gwasanaethau sy'n darparu mynediad o bell mae'r Llyfrgell yn ymrwymo i roi blaenoriaeth brofiad y defnyddiwr ac egwyddorion sylfaenol 5.2.1 a 5.2.2, gan weithredu arferion ac egwyddorion megis UX.

5.2.6 Rhoir mynediad digidol i gasgliadau i gefnogi pob math o ddefnydd. Gan roi ystyriaeth briodol i agweddau ymarferol a chyfreithiol, mae'r Llyfrgell yn annog ac yn hwyluso ailddefnydd o gasgliadau digidol gan gynnwys defnydd creadigol ac arloesol yn ogystal ag i gefnogi ymgysylltu, ymchwil ac ysgolheictod.

5.2.7 Bydd cyfle neu ymgais i gynhyrchu incwm neu wneud defnydd masnachol o gasgliadau digidol, naill ai gan y Llyfrgell neu 3ydd parti, yn seiliedig ar achos busnes sy'n rhoi ystyriaeth i'r traweffaith ar ddefnydd yn unol â'r egwyddorion uchod.

5.3 Darparu copïau o eitemau

Mae'r Llyfrgell yn darparu copïau ar bapur neu'n ddigidol trwy archebion reprograffig a cheisiadau digido ar-alw. Rhoir ystyriaeth i hawliau sydd ynghlwm â'r eitem a chodir ffioedd yn seiliedig ar gost darparu'r gwasanaeth. Os nad yw'r eitem eisoes ar gael yn ddigidol gan y Llyfrgell, neu ble mae mynediad i'r eitem wreiddiol yn hanfodol ar gyfer darparu copi bydd adran 4.6 o'r polisi hwn yn berthnasol.

5.4 Rhannu Casgliadau

Mae'r Llyfrgell yn rhannu casgliadau digidol ar blatfformau 3ydd parti fel modd o ymestyn cyrhaeddiad y casgliadau.

5.4.1 Ystyriaethau

Ystyrir y canlynol wrthwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi adnoddau er mwyn rhannu casgliadau'r Llyfrgell ar lwyfannau 3ydd parti:

DRAFT

- Cydnabyddiaeth i'r Llyfrgell: Pa mor amlwg yw'r Llyfrgell fel ffynhonnell y wybodaeth?
- Llwybrau i ddychwelyd ar y Llyfrgell (trwy ddolenni): A oes modd i'r defnyddiwr ddilyn llwybr uniongyrchol at yr eitem/casgliad ar lwyfannau'r Llyfrgell?
- Argaeledd gwybodaeth ystadegol fel tystiolaeth o gyrhaeddiad a thraweffaith: Pa wybodaeth ellir ei chael ynghylch cyrhaeddiad a defnydd o'r casgliad ar y llwyfan 3ydd parti?

DIWEDD Y DDOGFEN

Adolygiad diwethaf: Cymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol (2026-04)

DRAFT